**EDC-09-99(p.10)**

**Eitem rhif 6 ar yr Agenda**

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad:** 3 Tachwedd 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: BLAEN-RAGLEN WAITH**

**Diben**

1. Gwahoddir y pwyllgor i wneud y canlynol:

- ystyried y materion a nodir ym mharagraff 6, ac yn sgil y materion hynny, ystyried y flaen-raglen waith ddrafft ddiwygiedig a geir yn Atodiad 1;

- nodi rhaglenni drafft pwyllgorau eraill (ynghlwm) a rhoi gwybod am unrhyw feysydd mawr sy'n achosi pryder. (Nid yw rhaglen y Pwyllgor Iechyd ar gael hyd yma, ond fe'i cylchredir pan fydd y pwyllgor wedi cytuno arni.)

2. Adolygir rhaglen y Pwyllgor yng ngoleuni trafodaethau, ac fe'i cylchredir i Aelodau ei hystyried y tu allan i'r pwyllgor, cyn ei hanfon i'r Cabinet am ei sylwadau.

**Cefndir**

3. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn gofyn i bob pwyllgor pwnc gynnal rhaglen dreigl ar gyfer gwaith dros gyfnod o 12 mis o leiaf. Mae rheol sefydlog 9.9 hefyd yn gofyn i bwyllgorau pwnc wahodd sylwadau pwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ar eu rhaglenni drafft, gan roi ystyriaeth i'r sylwadau a ddaw i law wrth eu llunio ar eu ffurf derfynol.

4. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w raglen waith ddrafft am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf. Erbyn hyn, mae'n rhaid adolygu'r rhaglen cyn ei hanfon i'r Cabinet am sylwadau.

**Ystyriaeth**

5. Mae nifer o faterion a ystyrir gan y Pwyllgor yn rheolaidd yn nhrefn arferol ei waith: adroddiadau Ysgrifennydd y Cynulliad; edrych ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad; ystyried cyllideb y Cynulliad. Bydd materion trawsbynciol, fel cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy ac Ewrop hefyd yn cael eu hystyried yn rheolaidd.

6. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor am ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer y tri neu chwe mis nesaf. Gallai'r rhain gynnwys:

- Parhau i ystyried rhaglenni a ariennir gan y CE, gan gynnwys materion gweithredu.

- Arolwg o Ddatblygiad Busnesau Bach - cytunwyd arno ym mis Gorffennaf.

- Cynllun Mentergarwch Cymru.

- Arolwg o Bolisi Ynni - cytunwyd ar y mater hwn (ym mis Gorffennaf) fel eitem i'w hystyried mewn un cyfarfod, ond efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried y mater yn fanylach.

- Ystyriaeth bellach i adroddiad ETAG - yn enwedig mewn perthynas â medrau a mentergarwch.

- Ystyried materion TGC.

7. Roedd drafft blaenorol y rhaglen waith yn cynnwys amser sylweddol i drafod dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. Gall y Cynulliad gyfeirio'r mater hwn, yn enwedig unrhyw is-ddeddfwriaeth, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Os yw hynny'n digwydd, ac o ystyried y ffaith bod llawer o waith wedi'i wneud ar y polisi, efallai y bydd Aelodau'r Pwyllgor am ystyried a ellid gwneud defnydd mwy effeithiol o'u hamser yn edrych ar faterion eraill.

**Rhaglenni Gwaith Pwyllgorau Eraill**

8. Mewn perthynas â rhaglenni pwyllgorau eraill, efallai y bydd aelodau am godi pryderon mawr yn y cyfarfod. Gellid rhoi sylwadau llai i'r Clerc, a fydd yn eu hanfon ymlaen at Glerc y pwyllgor perthnasol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**1 Tachwedd 1999**

EDC-08-99(P.10)

Atodiad 1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Blaen-raglen Waith Ddrafft - Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**3 Tachwedd**

Cronfeydd Strwythurol

(1) Y Sector Preifat

(2) Gweithredu

(3) Blaen-raglen Waith

Polisi Uno - i'w ystyried y tu allan i'r pwyllgor

**17 Tachwedd**

(1) Adroddiad ail chwarter Ysgrifennydd y Cynulliad

(2) Twristiaeth

- strwythur a strategaeth y dyfodol

- Bwrdd Croeso Cymru - targedau a chyllidebau

(3) Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol: Targedau

(4) Gweithredu Rhaglenni Amcan 1 ac Amcan 3

(5) Ystyried cyllideb ddrafft y Cynulliad

[(6) Datblygu cynaliadwy]

**1 Rhagfyr**

(1) Cymhorthion Gweithredu

(2) Polisi Ynni

(3) Materion Cronfeydd Strwythurol (yn ôl y gofyn)

**15 Rhagfyr**

(1) Ystyriaeth fanwl i'r gyllideb

(2) Datblygu busnesau bach - cytuno ar gylch gwaith

(3) Materion Cronfeydd Strwythurol (yn ôl y gofyn)

**26 Ionawr**

(1) Polisi Ynni

(2) Datblygu busnesau bach

(3) [CDBC]

(4) Materion Cronfeydd Strwythurol ee TGC

**9 Chwefror**

(1) Yr economi gwledig (posibilrwydd o gynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig). Tystiolaeth gan uned polisi gwledig y WDA.

(2) Datblygu busnesau bach, datblygu cymunedol a dieithrwch cymdeithasol (gallai hon fod yn sesiwn dystiolaeth, gan gynnwys y Cynghorau Hyfforddiant a Menter)

(3) Ystyried Cynlluniau Busnes Blynyddol y WDA a'r Bwrdd Croeso, 2001-2002

(4) Cyfle cyfartal

(5) Adroddiad trydydd chwarter Ysgrifennydd y Cynulliad

**1 Mawrth**

(1) Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd - yn ôl y gofyn

(2) Materion Cronfeydd Strwythurol (yn ôl y gofyn)

(3) Datblygu busnesau bach (parhad)

(4) Cynllun Mentergarwch Cymru

(5) Ystyried y Flaen-raglen Waith

**15 Mawrth**

(1) Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd - yn ôl y gofyn

(2) Cynnydd ar y Ffordd i Ffyniant

(3) Materion Cronfeydd Strwythurol (yn ôl y gofyn)

(4) Datblygu Cynaliadwy

**29 Mawrth**

(1) Addysg Uwch a'r Economi (mae'r pwyllgor addysg ar ôl 16 yn cynnig cynnal arolwg o addysg uwch, gan gychwyn ym mis Gorffennaf)